# CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

**Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd**

**26 Medi 2014**
**Glyder Fawr, Caernarfon**
**ddaru ail-ymgynnull ar**
**30 Medi 2014**
**Ystafell Bwyllgor 1, Llangefni**

**Presennol:**

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Cyng. Victor Hughes (30/9/14)
Cyng. Lewis Davies (26/9/14 & 30/9/14)
Cyng. Kenneth Hughes (30/9/14)
Cyng. John Arwel Roberts (30/9/14)

**Cyngor Gwynedd**
Cyng Gwen Griffith (26/9/14)
Cyng John Brynmor Hughes (30/9/14)
Cyng. John Wyn Williams (26/9/14)
Cyng. Gethin Glyn Williams (30/9/14)

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Rhun ap Gareth | Uwch Gyfreithiwr (CG) (30/9/14) |
| Nia Haf Davies | Rheolwr Cynllunio (Polisi) (26/9/14 & 30/9/14) |
| WE Jones | Uwch Reolwr Cyllid (CG) (26/9/14 & 30/9/14) |
| Amanda Davies | Swyddfa Archwilio Cymru (30/9/14) |

**Ymddiheuriadau:**
Cyng. Ann Griffith – CSYM
Cyng Dafydd Meurig - CG
Cyng John Pughe Roberts – CG
Cyng Dyfrig Jones (Eilydd) - CG
Aled Davies – Pennaeth Rheoleiddio (CG)
Jim Woodcock - Pennaeth Cynllunio & Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd (CSYM)
Gareth Jones – Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd (CG)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Fel nodwyd uchod.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim

## 3. MATERION BRYS

Dim

## 4. COFNODION

Derbyniwyd Cofnodion Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 20 Mehefin 2014 fel y rhai cywir a chafwyd eu harwyddo gan y Cadeirydd.

## 5. CYFRIFON TERFYNOL AR GYFER Y PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD AM Y FLWYDDYN DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2014 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL

Fel dilyniant i'r adroddiad a gafodd ei chyflwyno ar 20 Mehefin 2014 o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd cyflwynwyd llythyr gan Swyddfa Archwilio Cymru, Ffurflen Flynyddol swyddogol ar gyfer cyfrifon ac archwiliad 2013 – 14 a Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2013 – 14. Mae'n ofyniad statudol bod datganiadau o'r math yma'n cael eu paratoi.

Derbyniwyd y llythyr gan Swyddfa Archwilio Cymru ac fe gafodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Ffurflen Flynyddol eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.

Fe ardystiwyd y Ffurflen gan y Cadeirydd.

## 6. AMSERLEN Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

Cafodd adroddiad am yr amserlen ddiwygiedig ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ei gyflwyno gan Reolwr yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd. Nodwyd bod rhai ffactorau penodol a oedd wedi cael eu hadnabod yn Atodiad 1 i'r adroddiad wedi effeithio ar gynnydd paratoi'r Cynllun Adnau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Fe gynigiwyd amserlen ddiwygiedig oedd yn golygu cael cytundeb y ddau Gyngor cyn ei gyflwyno am gefnogaeth y Llywodraeth. Anelir

rŵan i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Adnau ym mis Chwefror a Mawrth 2015.

Cafodd yr amserlen ddiwygiedig ei gefnogi gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Bydd camau priodol yn cael eu cymryd i gael cymeradwyaeth y ddau Gyngor i'r amserlen ddiwygiedig.